Siarter Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan

Diben y Siarter hon

Mae'r Siarter hon yn disgrifio rôl Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan ('y Gwasanaeth'); y cymorth y gall ei ddarparu i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru; yr hyn y gall ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth; a'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ganddynt hwy yn gyfnewid.

Beth yw'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil?

Gwasanaeth cynghori annibynnol ydyw sydd ar gael i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru ac sy'n dymuno datblygu, cynllunio a chyflwyno ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol cymhwysol o ansawdd uchel. Mae'n un o ystod o wasanaethau ategol sy'n rhan o deulu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd â'r nod o gefnogi a chynyddu gallu Cymru ym maes ymchwil a datblygu.

Cwmpas

Prif nod y Gwasanaeth yw cynghori ymarferwyr proffesiynol ac ymchwilwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio i GIG Cymru a sefydliadau gofal cymdeithasol cyfatebol yng Nghymru fel eu prif gyflogwyr, er mwyn cynyddu'r ymchwil cymhwysol a wneir yn yr amgylcheddau hynny. Mae gan y Gwasanaeth rôl yn y meysydd hyn hefyd:

- Cynghori ar ddatblygiad diwylliant ymchwil yn y GIG,/sefydliadau gofal cymdeithasol a sefydliadau partner eraill, ar draws arbenigeddau a disgyblaethau;
- Cynghori ar ddatblygiad strategaeth hyfforddiant mewn dulliau ymchwil ar gyfer ymchwilwyr y GIG/ gofal cymdeithasol a sefydliadau partner; a
- Darparu cysylltiadau ag ymchwilwyr profiadol eraill.

Natur y cymorth sydd ar gael

Gwasanaeth cynghori yw'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil. Ei rôl yw cynnig cyngor annibynnol i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar yr hyn sy'n ofynnol a'r hyn a allai fod yn bosib, o safbwynt ymchwil a chynllunio, er mwyn eu galluogi i ddatblygu cynigion ymchwil cadarn o ansawdd uchel sy'n addas i'w hariannu. Nid yw'r Gwasanaeth wedi'i ariannu i ymgymryd â gweithgareddau prosiect sy'n gysylltiedig â grantiau ymchwil nac i'w cyflawni pan fydd y grantiau hynny wedi'u hennill. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu cyngor o safon uchel ar ymchwil er mwyn galluogi pobl i ennill cyllid allanol ar gyfer ymchwil a fydd yn talu costau'r ymchwil hwnnw.

Gall y Gwasanaeth ddarparu cyngor ar bob agwedd ar gynllunio astudiaethau ymchwil a llunio ceisiadau am grant, gan gynnwys ystadegau, economeg, dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol eraill, treialon clinigol, synthesis tystiolaeth, mesuriadau canlyniadau, canlyniadau iechyd, epidemioleg, cynnwys y cyhoedd a chleifion, moeseg a llywodraethu, a chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg wrth gynllunio a chynnal ymchwil.

Mae'r cyngor sydd ar gael yn cynnwys:

- Gwella ffocws syniadau a mireinio cwestiwn/cwestiynau'r ymchwil;
- Creu tîm ymchwil priodol;
- Cynnwys cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth ym mhob cam o'r broses ymchwil;
- Cynllun cyffredinol yr ymchwil;
- Dewis methodolegau ymchwil a'u rhoi ar waith, ar gyfer ymagweddau ansoddol a meintiol;
- Dewis ymagweddau a dulliau economaidd a'u rhoi ar waith;
- Trefnu cyfranogiad cyfrwng Cymraeg yn yr ymchwil sy'n bodloni gofynion rheoleiddio a llywodraethu;
- Mesuriadau canlyniadau;
- Sut i gynnal chwiliadau llenyddiaeth a chynnal adolygiadau systematig;
- Nodi'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer prosiect llwyddiannus;
- Nodi cyfleoedd ariannu addas; a
- Chyfeirio ymchwilwyr at ffynonellau eraill o arbenigedd ymchwil, gan gynnwys nodi partneriaid ymchwil posib.

Gellir rhoi cyngor yn gynnar iawn mewn prosiect, gan gynnwys cyngor ar ddatblygu syniadau ar gyfer grantiau llai, a gwaith dichonoldeb sydd â'r potensial i arwain at geisiadau mwy. Mae hyn yn ymestyn i gyngor ar gyflwyno prosiectau ymchwil sylweddol lle mae pob elfen hanfodol wedi'i nodweddu a'i meintoli.

Nid yw'r Gwasanaeth wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â swyddogaethau penodol ym maes addysg neu ddarparu hyfforddiant y tu hwnt i esbonio a hyrwyddo ei wasanaethau cynghori ei hun. Fodd bynnag, mae'r cyngor sydd ar gael gan y Gwasanaeth yn cynnwys cynghori sefydliadau partner ar feithrin diwylliant ymchwil ac ar ddatblygu strategaeth hyfforddiant mewn dulliau ymchwil.

Cymhwysedd

Mae'r Gwasanaeth ar gael i unrhyw ymarferydd iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol syy'n gweithio yng Nghymru ac sy'n awyddus i ddatblygu ceisiadau grant i ffrydiau ariannu cenedlaethol, a adolygir gan gymheiriaid, er mwyn ymgymryd ag ymchwil.

Nid yw Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan yn gallu darparu cyngor ym mhob sefyllfa. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na fydd y Gwasanaeth yn gallu darparu cyngor:

- datblygu prosiectau ymchwil lle nad oes bwriad i gyflwyno cais am grant i ariannwr cydnabyddedig fel y disgrifir uchod;
- mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymchwil parhaus - byddai angen cyllid penodol o ffynhonnell arall ar gyfer gwaith o'r fath - grant prosiect, er enghraifft;
- goruchwyliaeth neu gymorth anffurfiol ar gyfer prosiectau myfyrwyr, gan gynnwys prosiectau PhD a doethuriaethau proffesiynol; a
- chynghori academyddion a/neu staff ymchwil sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch neu sefydliadau ymchwil cyfatebol.

Yn ogystal â hyn, gellir gwrthod ceisiadau hwyr (yn rhy agos at ddyddiad cau darparwr cyllid) am gyngor, ar y sail na chaniatawyd digon o amser rhwng cyflwyno'r cais am gymorth a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cais am gyllid.

Disgwyliadau ar y Naill Ochr a'r Llall

Gall defnyddwyr y Gwasanaeth ddisgwyl mynediad i wasanaeth proffesiynol a ddarperir mewn modd effeithlon ac amserol, a gellir cysylltu â darparwyr y Gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod proses ddatblygu cynnig ymchwil: o drafod syniad cychwynnol i ofyn am gyngor ar agwedd benodol ar gynnig datblygedig.

Yn gyfnewid am eu cyngor, bydd darparwyr y Gwasanaeth yn disgwyl i ddefnyddwyr:

- ddefnyddio'r Gwasanaeth at ddibenion cymwys yn unig;
- ystyried yr holl gyngor a roddir yn ofalus;
- cydnabod y cyngor a roddwyd gan y Gwasanaeth;
- cytuno i rannu cynigion drafft â staff eraill y Gwasanaeth ac unedau treialon clinigol/WHESS (Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru) a LLAIS (Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith) fel y bo'n briodol; a
- chwblhau'r adrannau priodol ar ffurflenni cais ynghylch natur cyfranogiad y Gwasanaeth a'r cyngor a ddarparwyd.

Datganiad Diogelu Data a Phreifatrwydd

Mae Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan yn adrodd yn rheolaidd i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac i'r swyddfeydd ymchwil a datblygu lleol ynghylch nifer a natur y ceisiadau am gymorth a dderbynnir gan y GIG ac eraill. Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol byth ei rhoi i unrhyw unigolyn neu sefydliad, na'i dosbarthu mewn unrhyw ffordd arall, oni bai y rhoddwyd caniatâd. Mae Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Diogelu Data 1998. Caiff data personol ei gadw'n gyfrinachol ac ni chaiff ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti (unrhyw sefydliad y tu allan i'r Gwasanaeth) ac eithrio lle ceisiwyd a rhoddwyd caniatâd yr unigolyn. Cedwir manylion cyswllt defnyddwyr yn unol â rheoliadau diogelu data.

Sut mae defnyddio Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru Gyfan?

Y cam cyntaf i gael cymorth y Gwasanaeth yw cysylltu â ni a llenwi'r ffurflen Cais am Gymorth. Mae rhagor o gyngor ar gael yn uniongyrchol gan ddarparwr y Gwasanaeth yn eich rhanbarth, fel y nodir isod.

Gall darparwr y Gwasanaeth sy'n ystyried eich cais am gymorth gysylltu â chi er mwyn deall natur y cyngor a geisir a'r cymorth a allai fod ar gael yn well. Os yw'r cais yn gymwys, bydd darparwr y Gwasanaeth yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu cyfarfod cychwynnol er mwyn trafod, cytuno a chofnodi natur a chwmpas y gwasanaeth cynghori i'w ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil.

Er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Gwasanaeth yn cael eu dosbarthu mewn modd cyfartal a theg ar draws Cymru, dylai defnyddwyr sylwi bod terfynau ar y gwasanaeth o ran argaeledd staff. Bydd natur a chwmpas y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil yn cael eu hesbonio a'u cytuno yn y cyfarfodydd cychwynnol.

Pwy sy'n darparu'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil yng Nghymru?

Caiff y Gwasanaeth ei gynllunio a'i ddarparu ar sail ranbarthol ar draws Cymru. Lle y bo'n briodol, cyfeirir ymgeiswyr at WHESS a LLAIS.

Caiff ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth, gysylltu â'r darparwr sy'n fwyaf cyfleus iddynt.

Research Design & Conduct Service South East Wales

Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil De-ddwyrain Cymru

De-ddwyrain Cymru: Y Ganolfan Ymchwil Treialon

Rhif Ffôn: (029) 20 687617

E-bost: rdcs@cardiff.ac.uk

Research Design & Conduct Service South West Wales

Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil De Orllewin Cymru

De-orllewin Cymru: Uned Dreialon Abertawe

Rhif Ffôn: 01792 603407

E-bost: rdcs@abertawe.ac.uk

Research Design & Conduct Service North Wales

Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil Gogledd Cymru

Gogledd a Chanolbarth Cymru: Sefydliad Hap-dreialon Iechyd Gogledd Cymru (NWORTH)

Rhif Ffôn: 01248 388095

E-bost: nworth@bangor.ac.uk